WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Gwella mynediad at fannau agored, a'u hansawdd, er budd ein cymunedau, busnesau ac ymwelwyr' – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1537A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Charlotte Owen ac Allison Rees, a'r rheolwr rhaglen oedd Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy: mae'n cydweithio'n dda gydag eraill, ond nid oes cynllun hirdymor, cydgysylltiedig ganddo.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Er bod rhai prosiectau wedi'u bwriadu i gyflawni deilliannau tymor hwy, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i gynllunio sut y bydd y cam hwn yn cael ei gyflawni dros y tymor hir 6

Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam hwn i atal dirywiad ecosystemau a hybu llesiant pobl leol, ond mae angen mwy o ddata i fesur a monitro cynnydd 7

Mae'r cam hwn wedi'i fwriadu i ddwyn nifer o fanteision, ac mae trefniadau gweithio integredig cadarnhaol rhwng sefydliadau partner allweddol ledled Gwent; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn mewn cynlluniau eto, ac o fewn y Cyngor, mae'r cam hwn yn dal i fod dan 'berchnogaeth' y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol 9

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda i gyflawni'r cam hwn ac mae'n dymuno ehangu ei rwydwaith o bartneriaid, ond gallai'r cydweithio gael ei gydgysylltu'n well 10

Er bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nifer o grwpiau cymunedol i ddylunio a rheoli mannau agored, gallai wneud mwy i gynnwys busnesau a phobl leol 12

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 15

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- a pennu eu hamcanion llesiant; a
- b cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o 'gwella mynediad at fannau agored, a'u hansawdd, er budd ein cymunedau, busnesau ac ymwelwyr', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wella mynediad at fannau agored, a'u hansawdd, er budd ein cymunedau, busnesau ac ymwelwyr.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen ‘Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol[1]’ Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy: mae’n cydweithio’n dda gydag eraill, ond nid oes cynllun hirdymor, cydgysylltiedig ganddo.

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, 2015

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: canfyddiadau'r archwiliad

### Er bod rhai prosiectau wedi'u bwriadu i gyflawni deilliannau tymor hwy, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i gynllunio sut y bydd y cam hwn yn cael ei gyflawni dros y tymor hir

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- yn cynllunio dros raddfa amser briodol;
- yn meddu ar adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; ac
- yn cyflawni gwaith monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau'r Cyngor (2019-2022) yn cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant Cymunedau sy'n Gryf ac yn Amgylcheddol Ddoeth.
- mae'r Cyngor yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyllid allanol i helpu i ddarparu adnoddau i gyflawni'r cam hwn. Sicrhaodd gyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW) yn ddiweddar ar gyfer y Prosiect Gwent Fwyaf Gydnerth, a fydd yn mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth ac yn helpu i gynyddu cydnerthedd ecosystemau ledled Gwent.
- mae'r grant ENRaW yn darparu cyllid tymor byr/canolig ond mae wedi'i fwriadu i wella bioamrywiaeth yn y tymor hir.

14 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth hirdymor ar gyfer gwella mynediad at fannau agored a'u hansawdd, a honno'n cael ei hategu gan ddeilliannau.
- nid yw Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2019-20 (na'i ddatganiad llesiant ar gyfer 2018-19) yn cynnwys tystiolaeth i ategu pam fod y cam hwn yn bwysig.

[2] Gweler Atodiad 1

- er bod y Cynllun Corfforaethol 2019-20 yn cynnwys tri mesur posibl o berfformiad i asesu cynnydd o ran cyflawni'r cam hwn, nid oes data na gwybodaeth sylfaenol, na thargedau/uchelgeisiau rhagamcanol wedi'u cynnwys yn y cynllun corfforaethol y gellir eu defnyddio fel sail i fesur cynnydd; ac
- mae'r Cyngor o'r farn y gallai fod bygythiad i gyflawni'r cynllun hwn gan bod y rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael i gefnogi'r cam yn dod o grantiau allanol. Heb grantiau allanol, dywed swyddogion mai dim ond adnoddau i ganolbwyntio ar hanfodion cynnal a chadw tir a llwybrau troed fyddai ganddynt.

## Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam hwn i atal dirywiad ecosystemau a hybu llesiant pobl leol, ond mae angen mwy o ddata i fesur a monitro cynnydd

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- wedi dyrannu adnoddau i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- yn gwneud gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- bydd y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2019-20) yn rhoi cymorth i gyflawni'r cam hwn trwy helpu i gynnal a gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref a chynni cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a gwirfoddoli cymunedol.
- mae'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2019-20) hefyd yn ceisio atal difrod difrifol neu ddiwrthdro i ecosystemau.

[3] Gweler Atodiad 1

- mae asesiad llesiant Blaenau Gwent wedi defnyddio gwybodaeth o waith ymchwil gan Mind (2013)[4] ar y cysylltiadau cadarnhaol arwyddocaol rhwng llesiant meddyliol a chorfforol ar y naill law a mwy o goed a mynediad at fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol ar y llaw arall.
- rhagwelir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn lleihau yn y dyfodol. Dywed swyddogion fod gwella mynediad at fannau agored, ansawdd y mannau agored hynny a'u hyrwyddo'n well yn gallu helpu i wrthdroi'r lleihad a ragwelir yn y boblogaeth trwy greu lle gwych i fyw ynddo i gadw pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref a denu busnesau newydd, gan felly greu cyfleoedd cyflogaeth yn y Fwrdeistref.
- mae'r Cyngor yn dymuno dileu ac atal allgau cymdeithasol, arwahanrwydd cymdeithasol, ac unigrwydd, trwy sicrhau bod digwyddiadau cymdeithasol megis casglu sbwriel mewn mannau agored yn annog mwy o drigolion i chwarae rhan ac yn creu ymdeimlad o falchder yn eu cymunedau ac yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

18 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- mae angen i'r Cyngor ddeall yn well beth yw cyflwr iechyd corfforol a meddyliol ei drigolion ar hyn o bryd a lefelau arwahanrwydd cymdeithasol i sicrhau bod cyflawni'r cam hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.
- hoffai'r Cyngor ymgysylltu'n fwy â meddygon teulu ac ymarferwyr iechyd eraill i bresgripsiynu 'mynediad at fannau agored' ar gyfer cleifion i helpu i wella'u hiechyd meddwl. Am dros ddeng mlynedd, mae meddygon teulu wedi gallu presgripsiynu gweithgarwch corfforol trwy'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a hoffai'r Cyngor ehangu'r arlwy hon i wella iechyd meddwl.
- mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y mannau agored o bosibl yn atal cymunedau lleol rhag ymweld â mannau agored a'u mwynhau. Cyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn 2015, datblygodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Becyn Cymorth Troseddau ar Dirwedd Ucheldiroedd De Ddwyrain Cymru o fewn ardal a oedd yn cwmpasu Cynghorau Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys oddeutu 40 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â llosgi bwriadol, tipio anghyfreithlon a gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon. Nid yw'r Cyngor wedi asesu effaith y pecyn cymorth hwn eto o ran atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardaloedd ucheldirol y Fwrdeistref .

[4] Feel better outside, feel better inside: Ecotherapy for mental wellbeing, resilience and recovery. Ar gael o: http://www.mind.org.uk/media/336359/Feel-better-outside-feel-better-insidereport.pdf.

## Mae'r cam hwn wedi'i fwriadu i ddwyn nifer o fanteision, ac mae trefniadau gweithio integredig cadarnhaol rhwng sefydliadau partner allweddol ledled Gwent; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn mewn cynlluniau eto, ac o fewn y Cyngor, mae'r cam hwn yn dal i fod dan 'berchnogaeth' y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor yn deall:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2019-2022) yn cysylltu â phob un o'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcan llesiant y Cyngor, Cymunedau sy'n Gryf ac yn Amgylcheddol Ddoeth;
- mae 'gofalu am yr amgylchedd a'i ddiogelu' yn un o amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Blaenau Gwent. Mae'r BGC yn cydnabod gwerth mynediad at fannau agored, gyda manteision sylweddol i lesiant meddyliol a chorfforol pobl. Mae'r amcan llesiant hwn gan y BGC yn gyson iawn â'r cam hwn.
- mae Asesiad Llesiant Blaenau Gwent yn nodi'r angen i 'greu cyfleoedd a gwella mynediad at fannau gwyrdd ar gyfer cymunedau Blaenau Gwent ac ymwelwyr â'r sir'. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r sail dystiolaeth hon i oleuo'r gwaith i ddatblygu'r cam.
- mae'r BGC yn darparu cyswllt strategol â phartneriaid sy'n gallu rhoi cymorth i gyflawni'r cam hwn. Mae'r Grŵp Cymorth Strategol yn dwyn partneriaid ynghyd ar lefel fwy gweithredol.

[5] Gweler Atodiad 1

- canfu'r cynnig ar gyfer Gwent Fwyaf Gydnerth gan ecolegydd y Cyngor y cyfle i integreiddio gwaith ar draws sefydliadau partner i wella ansawdd mannau agored ymhellach.
- mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, y mae'r Cyngor yn aelod ohoni, yn adnabod llwybrau rhanbarthol i wella mynediad at fannau agored yn lleol a ledled y rhanbarth. Bydd y gwaith mewn partneriaeth yn arwain at Strategaeth Mynediad Gwent.
- Mae swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu at Ddatganiad Ardal De Ddwyrain Cymru i adnabod cyfleoedd strategol i wella ansawdd mannau agored. Maent hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i broffilio cydnerthedd ecosystemau yn Ne Ddwyrain Cymru.
- mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu adroddiad Sefyllfa Natur ar gyfer Gwent a Chynllun Gweithredu Adfer Natur cysylltiedig.
- mae gwaith y Cyngor ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wedi'i fwriadu i gyfrannu at amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

22 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- er bod y swyddogion yn y Cyngor y siaradom ni gyda hwy'n deall manteision ehangach cyflawni blaenoriaethau eraill y Cyngor, y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol sy'n dal i fod yn berchen ar y cam hwn gan mwyaf, sy'n awgrymu nad yw'r Cyngor wedi cymryd y cyfle eto i harneisio adnoddau ehangach y Cyngor i gynllunio a chyflawni'r cam.
- nid yw'n glir sut y mae cyflawni'r cam hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau partneriaid a gwasanaethau eraill y Cyngor o ran adnabod camau gweithredu penodol y byddant yn eu cymryd a graddfeydd amser.
- 'Creu Gwent Iachach' yw'r cynllun strategol ddeng mlynedd ym maes iechyd y cyhoedd i wella iechyd a llesiant poblogaeth Gwent. Nid yw gwella mynediad at fannau agored, a'u hansawdd, er budd iechyd y cyhoedd wedi'i gynnwys.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda i gyflawni'r cam hwn ac mae'n dymuno ehangu ei rwydwaith o bartneriaid, ond gallai'r cydweithio gael ei gydgysylltu'n well

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);

- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- y Cyngor yw'r corff arweiniol ar gyfer y prosiect Gwent Fwyaf Gydnerth ac mae'n aelod o Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG). Mae'r grwpiau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i wella iechyd asedau naturiol Gwent a chynyddu i'r eithaf y manteision o ran llesiant a ddarperir ganddynt.
- ceir Partneriaeth Natur Leol ar y cyd rhwng y Cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Fe sefydlodd y Bartneriaeth Natur Leol grŵp llywio eleni i strwythuro'i gwaith.
- mae swyddogion y Cyngor yn cyfranogi ym Mhanel Cymoedd y Dwyrain (un o baneli tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru). Fe wnaeth swyddogion y Cyngor hwyluso'r broses o gynnwys y bartneriaeth natur leol (sy'n rhychwantu ffiniau Blaenau Gwent a Thorfaen) yn y panel tirwedd.
- mae swyddogion y Cyngor yn hwyluso ac yn cyd-gadeirio Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent. Er na chafodd y grŵp ei sefydlu'n benodol i roi cymorth i gyflawni'r cam, mae'n adnabod yr angen i ardaloedd naturiol o ansawdd da fod yn flaenoriaeth ranbarthol allweddol.
- er mai'r BGC sy'n darparu cyfeiriad strategol, mae'r Grŵp Cymorth Strategol yn darparu trefniant cydweithio gweithredol yn benodol gyda'r gwasanaethau Heddlu a Thân ac Achub. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi darparu cyfleuster llenwi â dŵr ar hyd llwybr Ebwy Fawr a gyllidwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r prosiect 'Blaenau Gwent Ar Symud' gan y BGC.
- ceir cydweithio agos gydag awdurdodau cyfagos i ddatblygu a chyflawni prosiectau sy'n ymwneud ag afonydd, llwybrau troed, llwybrau beiciau ac ati sy'n croesi ffiniau sirol;
- mae grwpiau cymunedol yn cymeradwyo cynlluniau rheoli a sefydlwyd gan y Cyngor ac yn rheoli rhai o warchodfeydd natur y Fwrdeistref mewn partneriaeth gyda'r Cyngor.
- ceir nifer o grwpiau cymunedol sydd â buddiant mewn rheoli mannau gwyrdd lleol a rôl weithredol yn hynny. Mae'r grwpiau hyn naill ai'n cydweithio ar draws ardal eang neu wedi'u neilltuo i weithio ar un man agored yn y Fwrdeistref. Mae Llwybr Ebwy Fawr yn cynnwys 14 o grwpiau cymunedol

[6] Gweler Atodiad 1

unigol sy'n helpu i reoli nifer o safleoedd gan gynnwys Pyllau a Choetiroedd Beaufort, Parc Nant-y-Waun a Choetir Cymunedol Roseheyworth. Yn ogystal â gweithio gyda'r Cyngor, mae'r grwpiau hyn yn ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Natur Gwent, Groundwork Wales a Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi arwain at ddyfarnu statws Baner Werth Gymunedol i bump o fannau agored yn y Fwrdeistref.

- mae'r Cyngor wedi dechrau cydweithio gyda thyddynwyr a ffermwyr lleol yn ddiweddar. Gadewir i gaeau hen ysgolion dyfu fel gweirgloddiau ac maent ar gael i ffermwyr eu torri i fwydo da byw. Mae hwn yn drefniant cydfuddiannol gan bod y rhain yn ardaloedd glaswelltog yr arferai'r Cyngor eu torri'n draddodiadol. Mae'r Cyngor yn asesu ardaloedd posibl eraill yn y Fwrdeistref at yr un diben.
- Mae swyddogion y Cyngor yn y Gwasanaeth Adfywio a Chymunedol yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi grwpiau cymunedol gyda pherthnasoedd gweithio cadarnhaol, da.

26 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- mae gan y Cyngor ystod o fesurau i wella ansawdd mannau agored, a mynediad atynt, ond nid yw wedi nodi eto sut y gall annog pobl i'w defnyddio. Mae'n cydnabod bod newid ymddygiad yn un ffordd o gyflawni hyn.
- nid yw'r Cyngor yn cynyddu i'r eithaf y potensial i staff yng ngwasanaethau eraill y Cyngor weithio gyda staff Adfywio a Chymunedau i gyflawni'r cam hwn.
- dywedodd y Cyngor fod cydweithio'n gallu bod yn her oherwydd ewyllys wleidyddol rhai cynghorau cyfagos i gydweithio, yr adnoddau cyfyngedig a chapasiti staff i ymrwymo i fynd ar drywydd mentrau cydweithio pellach a'u cynnal.
- mae diffyg strategaeth hirdymor i gyflawni'r cam hwn yn golygu nad yw'r cydweithio wastad mor gydgysylltiedig ag y gallai fod.

## Er bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nifer o grwpiau cymunedol i ddylunio a rheoli mannau agored, gallai wneud mwy i gynnwys busnesau a phobl leol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;

- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[7]

## Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- wrth baratoi Cynllun Llesiant Blaenau Gwent, cafodd trigolion a rhanddeiliaid eraill eu cynnwys trwy'r rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem'. Datgelodd hon fod ar bobl eisiau gweld mwy'n cael ei wneud i ddiogelu'r amgylchedd a gwneud yr ardal yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ddenu mwy o ymwelwyr.
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â busnesau ar rai gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r cam, e.e. yr agenda Teithio Llesol a rhandiroedd cymunedol, gyda busnesau sydd â buddiant mewn mannau agored hygyrch o safbwynt llesiant y gweithlu.
- mae'r Cyngor yn hyrwyddo 'pawennau ar batrôl' sy'n annog pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro i hysbysu'r heddlu ynghylch ymddygiad amheus. Mae'r fenter yn annog y gymuned i chwarae rhan a chymryd cyfrifoldeb am eu hardaloedd i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- mae'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2019-2022) yn nodi nifer o gyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc.
- mae'r Cyngor yn gweithredu fel noddwr arweiniol y BGC ar gyfer y prosiect 'Blaenau Gwent ar Symud' a geisiodd gyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel rhan o'r prosiect hwn, mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid, busnesau a thrigolion i wella mynediad at yr awyr agored er mwyn dwyn manteision i iechyd. Mae'r prosiect hwn yn helpu'r Cyngor i ddod yn ymwybodol o rai o'r grwpiau cymunedol yn ogystal â faint o bobl sy'n defnyddio rhai o'r mannau agored. Mae enghreifftiau'n cynnwys grwpiau casglu sbwriel lleol mewn gwahanol fannau agored gyda'r Cyngor yn darparu cyfarpar diogelu personol a digwyddiad Parkrun wythnosol ym Mharc Bryn Bach.
- trwy'r cynlluniau rheoli sydd yn eu lle ar gyfer rhai mannau agored yn y Fwrdeistref, gall y grwpiau cymunedol sy'n rheoli'r mannau hyn ddylunio a chyflawni gweithgareddau a phrosiectau yn yr ardaloedd hyn.

30 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

[7] Gweler Atodiad 1

- er bod y cam yn cyfeirio at wella ansawdd mannau agored a mynediad atynt er budd busnesau a rhai enghreifftiau penodol ble mae hyn wedi digwydd, cyfyngedig fu'r gwaith gyda busnesau hyd yma.
- bydd angen i'r Cyngor benderfynu pa wybodaeth y mae'i hangen arno i gynllunio a chyflawni'r cam hwn. Mae hyn yn debygol o fod yn wahanol i'r wybodaeth sydd ganddo ar hyn o bryd.
- mae'r Cyngor yn dymuno cynnwys pobl leol i'w helpu i ddeall yn well pwy sy'n defnyddio mannau agored a pham, yn ogystal â deall pam nad yw pobl yn defnyddio mannau agored.

# Rhan Dau: ymateb y Cyngor

31 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i uwch swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Medi 2019. Yn bresennol roedd Ecolegydd y Cyngor, yr Arweinydd Tîm ar gyfer Seilwaith Gwyrdd, y Rheolwr Gwasanaethau Seilwaith, y Rheolwr Trawsnewid Addysg, y Swyddog Cyfleusterau Addysg, y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, a'r Arweinydd Proffesiynol dros Ymgysylltu â Chymunedau, Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Hefyd yn bresennol yn y gweithdy roedd cynrychiolydd o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfarwyddwr Masnachol Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

32 Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol:

### Hirdymor

- Datblygu gweledigaeth gliriach yn y Cynllun Corfforaethol – hirdymor, sef 30 mlynedd
- Cynyddu'r ardaloedd o dir a reolir (coetiroedd/glaswelltir/cynefinoedd)
- Ymgysylltu â rhieni ar adeg gynnar i gefnogi mwy o ymgysylltu â'r blynyddoedd cynnar
- Rhoi anogaeth ar gyfer mentrau economaidd a fydd yn sicrhau bod yr adnodd yn cael ei reoli trwy gyflogaeth ac addysg

### Atal

- Sicrhau bod pobl yn teimlo'u bod yn gallu, a bod pobl yn gallu, cael mynediad at fannau agored, e.e. trwy:
  - Darparu'r wybodaeth gywir – mapiau, llwybrau a.y.b.
  - Hyrwyddo
  - Newid diwylliant ac ymddygiad
  - Sicrhau bod mannau agored yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ddiogel

### Integreiddio

- Adeiladu ar y Blaengynllun Amgylcheddol.
- Sicrhau bod yr holl gynlluniau busnes yn cydnabod y cam ac yn cyflawni rôl weithredol. Dyletswydd Adran 6.
- Sicrhau bod nodau eglur y gall yr holl sefydliadau eu cefnogi a gweithio tuag atynt.

Cydweithio

- Ehangu'r 'Blaenau Gwent a garem' i gasglu a helpu i ddeall barn pobl am fannau agored a gwyrdd
- Datblygu mesurau sy'n ymwneud â lefelau ailgylchu, materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a thystiolaeth o newid ymddygiad

Cynnwys

- Coladu tystiolaeth leol o grwpiau â statws a chynyddu nifer y grwpiau cymunedol wedi'u sefydlu sy'n rhan o reoli Mannau Agored Gwyrdd

33 Gallwn fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn? |
|---|
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol ?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru